



Annwyl Ymgynghorai,

Sefydlu Ysgol 3-19 oed yn y Fenni

Ysgrifennaf i'ch hysbysu am benderfyniad y Cyngor yn dilyn y prosesau ymgynghori statudol yn ymwneud â'r cynigion i sefydlu ysgol 3-19 pob oed yn y Fenni.

Byddwch yn gwybod o fy ngohebiaeth flaenorol i Gabinet y Cyngor gwrdd ar 6 Hydref 2021 a chytuno i symud i gamau nesaf y broses statudol, sef cyhoeddi hysbysiadau statudol yn ymwneud â'r cynnig i sefydlu ysgol pob oed (3-19) yn y Fenni yn weithredol o 1 Medi 2023. Er mwyn darparu ar gyfer y cynigion hyn, byddai'r Cyngor yn rhoi'r gorau i gynnal Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII ac Ysgol Gynradd Deri View yn weithredol o 31 Awst 2023.

Cyhoeddwyd yr hysbysiadau statudol yn ffurfiol ddydd Mawrth 19 Hydref 2021 ac yn rhoi cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer unrhyw wrthwynebiadau statudol. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 17 Tachwedd 2021. Cynhyrchwyd adroddiad gwrthwynebiad yn rhoi manylion unrhyw wrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd ag ymateb y Cyngor. Mae copi o'r Adroddiad Gwrthwynebiad ar gael i'w weld yn www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation. Gellir darparu copïau caled o'r Adroddiad Gwrthwynebiad ar gais.


Cyfarfu Cabinet y Cyngor ar 19 Ionawr 2022 i ystyried cynnwys yr Adroddiad Gwrthwynebiad a gwneud eu penderfyniad terfynol i symud ymlaen gyda sefydlu'r ysgol pob oed (3-19) i'w lleoli ar safle Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII, yn weithredol o fis Medi 2023, gyda'r adeilad ysgol newydd yn agor ym mis Medi 2024. Mae'r penderfyniad hwn hefyd yn golygu y bydd y Cyngor yn peidio cynnal Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII ac Ysgol Gyfun Deri View yn weithredol o 31 Awst 2023.

Wrth benderfynu ar y cynnig, rhoddodd Aelodau'r Cabinet ystyriaeth ofalus i ffactorau allweddol yn ymwneud â chynigion trefniadaeth ysgolion a ddynodir o fewn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Tachwedd 2018). Mae crynodeb o'r ystyriaethau a roddwyd i'r ffactorau hyn a ddynodwyd yn atodiad 1 ar y ddalen nesaf. Mae'r ystyriaethau llawn ar gael drwy astudio'r dogfennau statudol yn ymwneud â'r cynigion hyn, sydd ar gael drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation

Er ei bod yn gyffrous i symud ymlaen i ddarparu'r Ysgol newydd pob oed, rydym yn cydnabod y daw'r penderfyniad hwn law yn llaw â chau Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII ac Ysgol Gyfun Deri View. Mae cau ysgol bob amser yn benderfyniad anodd iawn i Aelodau'r Cabinet ei wneud, yn arbennig pan fo'r ysgolion dan sylw yn cefnogi rhai o'n plant mwyaf bregus. Fodd bynnag, bydd yr ysgol pob oed newydd yn cynnig cyfleoedd anhygoel i bawb y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt, yn ogystal â'r gymuned yn ehangach.

Bydd ffocws y Cyngor yn awr yn bendant iawn ar weithio'n agos iawn gyda'r cyrff llywodraethu, staff a phlant i sicrhau fod y broses bontio mor llyfn ag sydd modd.

Yn gywir iawn



Will McLean

Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

The Council welcomes correspondence in English or Welsh or both, and will respond to you

Atodiad 1

Ystyriaethau a roddodd y Cyngor i ffactorau allweddol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Medi 2018) wrth wneud y penderfyniad i sefydlu Ysgol pob oed (3-19) yn y Fenni.

1) Ansawdd a Safonau Addysg

Mae safonau yn y ddwy ysgol wedi gwella dros nifer o flynyddoedd fodd bynnag gall y gwelliant hwn barhau o fewn ysgol 3-19. Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeiladau modern ansawdd uchel a gynlluniwyd i gefnogi cyflenwi'r cwricwlwm newydd yn effeithlon. Bydd dileu camau a chyfnodau allweddol yn rhoi mwy o ryddid i athrawon i ystod ehangach o weithwyr proffesiynol i benderfynu beth a sut y bydd disgyblion yn dysgu ar draws continwrm ysgol gyfan. Mae gan ddatblygiad continwrm dysgu cyffredin sy'n gweithio i blant pum mlwydd oed, yr arddegau ac oedolion ifanc y capasiti a'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion a buddiannau pob dysgwr, yn cynnwys y rhai bregus neu sydd dan anfantais, a'r rhai sy'n mwy galluog a thalentog. Mae cyfleoedd i wneud hyn yn llawer mwy mewn ysgol pob oed o gymharu â'r model cynradd/uwchradd traddodiadol.

Wrth wneud ei benderfyniad, mae'r Cyngor yn hyderus na fyddir yn lleihau ansawdd a safonau addysg y plant a'r bobl ifanc hynny y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt.

Angen am leoedd ac effaith ar hygyrchedd ysgolion

Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r galw am leoedd ysgol o fewn yr ardal. Ni chafodd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei gytuno ar hyn o bryd ac mae rhagolygon disgyblion ar gael ar wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd. Mae capasiti ar gael o fewn yr adeilad newydd i ganiatáu am dwf.

Byddai sefydlu ysgol 3-19 oed yn gwella'r cysylltiadau sydd eisoes yn eu lle rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd bresennol.

Gall datblygu ysgol newydd, a gynlluniwyd a gydag adnoddau llawn ar gyfer dysgu 21ain ganrif, arwain at i fwy o rieni yn dewis anfon eu plant neu eu trosglwyddo i'r ysgol newydd. Bydd hyn yn effeithio ar nifer y disgyblion, gan eu gostwng mewn ysgolion eraill a chynorthwyo pan mae mwy o alw nag o leoedd ar gael. Mae hyn yn gydnaws gyda'r ymrwymiad yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor i ddysgwyr gael eu haddysgu o fewn y gymuned y maent yn byw ynddi ac yn fwy penodol, i ddysgwyr Sir Fynwy gael eu haddysgu yn Sir Fynwy fel eu dewis cyntaf.

Adnoddau i Addysg a goblygiadau ariannol eraill

Bydd sefydlu'r ysgol 3-19 oed yn galluogi cryfhau ymyriadau i fynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol yr ardal.

Gall ysgolion pob oed hefyd roi ystod ehangach o ofodau ffisegol ar gyfer addysgu a dysgu ac ystod well o ofodau, adnoddau a deunyddiau arbenigol y gall dysgwyr gael mynediad iddynt ar draws ystod oedran ehangach nag mewn lleoliad un cam. Mae hyn yn cynnwys technoleg ddigidol, gwybodaeth a dysgu, sy'n anodd ei fforddio, ei gynnal a'i adnewyddu mewn ysgolion un cam llai. Mae hyn yn cynnwys technoleg ddigidol, gwybodaeth a dysgu.

Gallai sefydlu ysgol pob oed fanteisio o arbedion maint ac osgoi dyblygu costau. Byddai'r gyllideb refeniw ar gyfer yr ysgol arfaethedig yn cael ei llunio yn unol â'r fformiwla presennol ar gyfer cyllido ysgolion gan sicrhau dosbarthiad teg o gyllid yn seiliedig ar anghenion disgyblion.

Wrth wneud ei benderfyniad i sefydlu'r ysgol 3-19 penderfynodd y Cyngor y bydd yr ysgol newydd yn rhoi gwerth am arian ac ymrwymiad clir i gefnogi ein holl ddisgyblion er mwyn iddynt gael y 'dechrau gorau posibl mewn bywyd'.

Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

Mae'r Cyngor wedi cwblhau asesiad Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cydnabod a hefyd yn lliniaru'r effaith ar y gymuned fel canlyniad i'r penderfyniad i sefydlu ysgol 3-19 a chau Ysgol Deri View ac Ysgol Brenin Harri VIII.

Edrychodd y Cyngor ar opsiynau heblaw cau'r ddwy ysgol. Roedd yr opsiynau eraill a ystyriwyd yn cynnwys adeiladu dwy ysgol newydd ar safle Ysgol Brenin Harri VIII ond eu cadw ar ysgolion ar wahân. Gwrthodwyd hyn gan nad yw'n effeithio ar y newid mewn amddifadedd economaidd-gymdeithasol na'n mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn lefelau cyrhaeddiad ar Gyfnod Allweddol 3 oherwydd pontio.

Er mai'r opsiwn i gau dwy ysgol a sefydlu ysgol pob oed oedd yr opsiwn drutaf a ystyriwyd, mae'r Cyngor yn credu fod yr opsiwn hwn yn galluogi cyflenwi Cwricwlwm i Gymru newydd drwy roi mwy o hyblygrwydd a chapasiti. Bydd newidiadau i'r hyn a sut mae disgyblion yn dysgu yn rhwyddach i'w reoli mewn amgylchedd pob oed nag mewn ysgol un cam. Bydd hyn yn helpu i gyflawni ein hymrwymiad i wella cyflawniad a chyrhaeddiad addysgol pob plentyn a pherson ifanc yn y sir drwy ddarparu system addysg gynhwysol sy'n rhoi'r dysgwr yn y canol.